Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

South Wales
**Fire and Rescue Service**

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

# CYNLLUN CYDRADDOLDEB
## ADDOLYGIAD BLYNYDDOL
# 2021 - 2022



**CODI YMWYBYDDIAETH - LLEIHAU RISG**

# CYFLWYNIAD

Dyma adolygiad 2021-2022 Cynllun Cydraddoldeb Strategol Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (gwelir y Cynllun ar y wefan, drwy'r dolenni isod)

Saesneg: https://bit.ly/StrategicEqualityPlan2020-2025

Cymraeg: bit.ly/CymllunCydraddoldebStrategol2020-2025

Mae holl gamau gweithredu/tasgau'r sefydliad wedi'u mapio i un o Ganlyniadau'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, ac mae'r adolygiad hwn yn rhoi cipolwg ar y daith tuag at gyflawniad.

# TROSOLWG

Mae'r siart ffrwydrad haul ar dudalen 4 yn dangos perfformiad yr holl dasgau AR Y CYNNYDD a GOHIRIEDIG sy'n ymwneud â'n pum Canlyniad Cydraddoldeb ar 31 Mawrth 2022:

**1. Sicrhau bod grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol / cymunedau ymylol yn cael eu cynnwys ar ddechrau'r broses ddylunio a darparu ein gwasanaethau**

**2a. Dod yn gyflogwr y gall pob cymuned weld ei hun yn dod yn rhan ohono**

**2b. Dod yn weithle lle mae pob gweithiwr yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi**

**3a. Sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau cyfreithiol yn unol â Deddf Cydraddoldeb (2010) a deddfwriaeth Gymreig gysylltiedig**

**3b. Gwella ein Seilwaith i gefnogi cyflogwr cynhwysol yn yr unfed ganrif ar hugain yn well**




| EO Ar Waith | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1. Cynllunio a Darparu Gwasanaethau | | | | |
| ▲ | ● | ★ | Amrywiol | Cyfanswm |
| 0 | 2 | 5 | 0 | 7 |
| 2a. Cyflogwr Delfrydol | | | | |
| 2 | 4 | 4 | 0 | 10 |
| 2b. Teimlo eich bod chi'n cael eich Gwerthfawrogi | | | | |
| 1 | 9 | 6 | 0 | 16 |
| 3a. Dyletswyddau Cyfreithiol | | | | |
| 0 | 2 | 1 | 0 | 3 |
| 3b. Seilwaith | | | | |
| 0 | 3 | 6 | 0 | 9 |

| EO Wedi ei gwblhau | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1. Cynllunio a Darparu Gwasanaethau | | | | |
| ▲ | ● | ★ | Amrywiol | Cyfanswm |
| 0 | 0 | 26 | 0 | 26 |
| 2a. Cyflogwr Delfrydol | | | | |
| 0 | 0 | 26 | 0 | 26 |
| 2b. Teimlo eich bod chi'n cael eich Gwerthfawrogi | | | | |
| 0 | 0 | 73 | 0 | 73 |
| 3a. Dyletswyddau Cyfreithiol | | | | |
| 0 | 0 | 19 | 0 | 19 |
| 3b. Seilwaith | | | | |
| 0 | 0 | 23 | 0 | 23 |

| EO Wedi ei gwblhau | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1. Cynllunio a Darparu Gwasanaethau | | | | |
| ▲ | ● | ★ | Amrywiol | Cyfanswm |
| 0 | 0 | 26 | 0 | 26 |
| 2a. Cyflogwr Delfrydol | | | | |
| 0 | 0 | 2 | 0 | 2 |
| 2b. Teimlo eich bod chi'n cael eich Gwerthfawrogi | | | | |
| 0 | 0 | 2 | 0 | 2 |
| 3a. Dyletswyddau Cyfreithiol | | | | |
| 3b. Infrastructure | | | | |

# POB CANLYNIAD

**1. Sicrhau bod grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol / cymunedau ymylol yn cael eu cynnwys ar ddechrau dylunio a darparu ein gwasanaethau**

Byddwn yn gwneud hyn drwy:

- Archwilio ffyrdd newydd o weithio i wella'r modd y darperir gwasanaethau.
- Meithrin perthnasoedd gyda grwpiau allanol a cheisio eu mewnbwn am sut y gallwn eu gwasanaethu'n well.
- Gweithio gydag awdurdodau lleol, elusennau, cyrff iechyd a sefydliadau eraill i gyfuno adnoddau i leihau 'blinder ymgynghori.'
- Cynnwys cymunedau ymylol drwy ofyn am adborth ar yr hyn yr ydym yn ei wneud.
- Cyfathrebu â'r rhai yr ydym yn eu gwasanaethu, gan roi gwybod iddynt am yr hyn yr ydym yn ei wneud a pham.
- Casglu a dadansoddi data perthnasol i wneud yn siŵr nad ydym yn eithrio grŵp (neu grwpiau) yn ddamweiniol.

Beth wnaethom yn ystod 2021/2022:

- Rydym yn datblygu Canolfan Arolygu ar y fewnrwyd i staff gael mynediad at wybodaeth/canllawiau ar Arolygon a Holiaduron.
- Mae cynlluniau ar waith i adolygu ein Cofrestr Rhanddeiliaid a Chofrestr Partneriaeth yn ystod 2022/23.
- Rydym yn gwella'r Rhwydwaith Cynghreiriaid Cydraddoldeb i gynyddu ymwybyddiaeth, aelodaeth a chyfranogiadau.
- Rydym yn bwriadu cynnal archwiliad ac asesiad EDI cyfannol yn ystod 2022/23.
- Rydym yn parhau i wella ein defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol.

**2a. Dod yn gyflogwr y gall pob cymuned weld ei hun yn dod yn rhan ohono**

**2b. Dod yn weithle lle mae'r holl weithwyr yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi**

Byddwn yn gwneud hyn drwy:

- Fynd i'r afael â rhwystrau mewnol ac allanol i ni ddod yn gyflogwr delfrydol sy'n wirioneddol gynhwysol.
- Denu niferoedd uwch o geisiadau gan bobl mewn grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.
- Meithrin ymddiriedaeth a gwerthfawrogi'r holl staff.
- Adolygu ein diwylliant mewnol cyfredol.
- Gwrando ar adborth gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.
- Gwella sgiliau gweithwyr cyfredol ac yn ogystal ag yn y dyfodol.
- Gwella telerau ac amodau lle bynnag y bo modd.
- Hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer dilyniant.
- Cefnogi a chadw ein staff.
- Darparu gweithgareddau recriwtio, dethol a hyrwyddo sy'n addas i'r diben.

Beth rydym wedi ei gwneud yn ystod 2021/2022:

- Rydym yn hyrwyddo materion EDI trwy estyn gwahoddiadau, mynychu sgyrsiau, cynnal sgyrsiau anffurfiol â thimau ac adrannau, trwy erthyglau Hysbysiadau Rheolaidd, sesiynau siarad mewn cyfarfodydd, sesiynau cynefino, ac ati.
- Mae datblygu a gweithredu strategaeth recriwtio ar draws y Gwasanaeth yn parhau i gael ei adolygu a'i fireinio cyn ei ddosbarthu i randdeiliaid allweddol.
- Rydym yn ystyried gwaith presennol y Cyngor Penaethiaid Tân Cenedlaethol o ran lles a byddwn yn gweithredu arfer gorau/argymhellion y grŵp hwn.
- Rydym wedi cwtogi'r broses recriwtio diffoddwyr tân ar alwad a chydnabod bod angen presenoldeb cynyddol ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae cynlluniau recriwtio ac atynnu lleol wedi cael eu llunio ac maent yn cael eu monitro bob chwarter.

- Mae Strategaeth ddrafft ar gyfer Hyfforddi a Monitro wedi cael ei chwblhau.
- Rydym yn datblygu porth adrodd ar ein System Gwybodaeth Rheoli Busnes (BMIS) i olrhain y cynnydd a wneir yn erbyn argymhellion Buddsoddwyr mewn Pobl (BmP).
- Cynhelir arolwg i bennu effeithiolrwydd cyfathrebu mewnol gyda gwelliannau, lle bo angen, i ddilyn
- Mae Rheolwyr Gorsaf yn parhau i gydweithio â'r Gwasanaethau Eiddo i wella cyfleusterau'r holl orsafoedd tân
- Rydym yn parhau i weithio gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru i symleiddio prosesau AD yn yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd
- Rydym yn parhau i weithredu'r cynllun cyflawni lles gweithwyr trwy'r Grŵp Llywio Lles sy'n cyfarfod bob chwarter ac mae ganddo gamau gweithredu penodol a ddyrennir i unigolion ar draws y Gwasanaeth. Mae camau ar waith i ddiweddaru a gwella'r cynnwys ar gyfer lles ar y fewnrwyd.

**3a. Sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau cyfreithiol o dan Ddeddf Cydraddoldeb (2010) a'r ddeddfwriaeth Gymreig gysylltiedig**

**3b. Gwella'r seilwaith i gefnogi cyflogwr cynhwysol yn yr 21ain ganrif yn well**

Byddem yn gwneud hyn drwy:

- Gyhoeddi adroddiadau cyn eu terfynau amser.
- Gweithio gydag eraill i rannu dysgu ac adnoddau.
- Lobïo am atebion creadigol i ddiogelu Gwasanaeth Tân yr 21ain ganrif at y dyfodol.
- Ymchwilio i offer, patrymau gwaith, a thechnoleg sy'n cefnogi cynhwysiant ac yn gwella'r hyn a wnawn.
- Gwella cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010).
- Cefnogi busnesau/cyflenwyr Cymreig (lle bo modd).
- Parhau i weithredu hyfforddiant Iaith Gymraeg.

Beth wnaethom yn ystod 2021/2022:

- Rydym yn bwriadu cynnal archwiliad ac asesiad EDI cyfannol yn ystod 2022/23.
- Rydym yn archwilio i atebion hyfforddi ar-lein i ddatblygu a chyflwyno pecyn hyfforddi rheolwyr llinell pwrpasol ar gyfer amrywiaeth.
- Mae Gwasanaethau Pobl yn parhau i ddatblygu mwy o ryngweithio gyda chwsmeriaid mewnol i weithredu model partneriaeth busnes AD.
- Rydym yn cyflawni rhai arbedion effeithlonrwydd drwy bortffolio digidol CORE, yn ogystal â recriwtio yw'r ychwanegiad diweddaraf.
- Rydym yn gwneud gwaith i roi System Rheoli Dysgu newydd ar waith.
- Rydym yn gweithio gyda CORE i eithafu effeithlonrwydd ymhellach fel bod pob modiwl o fewn y system mor effeithlon â phosib.
- Rydym yn cynnal Asesiadau Integredig cynhwysfawr i sicrhau bod ein gwasanaethau'n addas i bawb.

**Gwasanaeth Tân ac Achub de Cymru**
**Y Pencadlys, Parc Busnes Forest View, Llantrisant. CF72 8LX**

amrywiaeth@decymru-tan.gov.uk | www.decymru-tan.gov.uk

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg
- byddwn yn ymateb yn gydradd i'r ddwy ac yn ateb yn eich dewis iaith cyn gynted â phosib.

@TanDeCymru @TanDeCymru @sw_fire_and_rescue

Dyluniwyd gan yr Adran Cyfryngau a Chyfathrebiadau - GTADC 2023 - J/N 3894/EO